



PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

ADRODDIAD AR BRAESEPT BWRIEDIG Y COMISIYNYDD AR GYFER 2013/14

Cefndir

Llunnir yr adroddiad hwn yn unol â dyletswydd statudol y Panel sydd wedi'i gynnwys ym Mharagraff 3(2), Atodlen 5 Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.

Adolygu'r Praesept Bwriedig

Hysbysodd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru y Panel ar 15 Ionawr 2013 am ei Gyllideb Heddlu a Throsedd fwriedig a'i braesept ar gyfer 2013/14.

Rhoddodd y Panel ystyriaeth i adroddiad manwl yn amlinellu'r gyllideb fwriedig ar gyfer 2013/14 yn eu cyfarfod a gynhaliwyd ym Modlondeb, Conwy ddydd Llun, 21 Ionawr 2013. Adolygodd Aelodau'r Panel y cynnydd bwriedig ac ystyriwyd materion yn ymwneud â setliadau grant; yr effaith ar Dreth y Cyngor Band D (cynnydd o 3.98% neu £8.55 y flwyddyn, 17c yr wythnos); y targed arbedion ar gyfer 2013/14 a'r cynigion ar gyfer ail-fuddsoddi rhan o'r arbedion (£4.634m ac £1.777m yn y drefn honno); ac effaith unrhyw gynnydd yn y praesept.

Cytunodd y Panel gefnogi'r Comisiynydd a'i gynigion mewn perthynas â'r praesept plismona am y rhesymau a amlinellir isod:

- Roedd y Comisiynydd (CHTh) wedi'i ethol yn ddiweddar ac roedd ganddo fadad i gyflenwi ar ran pobl Gogledd Cymru.
- Cydnabu'r Panel nad oedd gosod y praesept a mabwysiadu'r Cynllun Heddlu a Throsedd wedi'u halinio ar hyn o bryd ac nid oedd y Cynllun wedi'i gyhoeddi eto, fodd bynnag byddai'r Panel yn disgwyl i'r Cynllun amlinellu manylion ynglŷn â sut roedd y Comisiynydd yn bwriadu cyflawni mandad yr etholwyr.
- Roedd y Comisiynydd yn atebol i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, a fyddai'n monitro gweithgarwch a gweithredoedd y CHTh yn y dyfodol, yn dilyn y penderfyniad hwn.
- Er bod y Panel yn cydnabod mai Gogledd Cymru oedd ag un o'r lefelau Treth y Cyngor uchaf, roedd yr ardal hefyd yn un o'r diogelaf yn y wlad.
- Nododd y Panel y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, fodd bynnag nid wnaethant ymrwymo i'r rhagdybiaethau cynllunio o gynnydd o 4% yn Nhreth y Cyngor ar gyfer y blynyddoedd nesaf.

Argymhellion

- (a) Dylid cymeradwyo'r praesept o £62.124m ar gyfer 2013/14, cynnydd o 3.47%, am y rhesymau a amlygir uchod.**
- (b) Dylid ail-fuddsoddi'r arbedion o £1.777m a nodwyd mewn 51 o Swyddogion Heddlu rheng flaen ychwanegol a dylid neilltuo'r arbedion hyn ar gyfer y pwrpas hwnnw yn unig.**
- (c) Dylid nodi'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, a oedd yn amlinellu cynnydd posibl o 4% ar gyfer pob blwyddyn tan 2015/16 yn seiliedig ar amcangyfrif y byddai gostyngiad o 3% yn y grant; fodd bynnag, nid yw'r Panel yn ymrwmo ei hun i'r rhagdybiaethau hyn ar gyfer y blynyddoedd nesaf.**

Mis Ionawr 2013